

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Darlith Goffa Hedley Gibbard 2022

'Yn y dechreuad... 1976'

Mary Jones

Yn y dechreuad... yr oedd Moc Rogers, telpyn o Ffair-rhos gerllaw oedd Moc Rogers, a hyd y gwyddom ni, fe oedd y cynta' i gael ei gyflogi i gyfieithu – neu drosi – defnydd y Llywodraeth ganolog i'r Gymraeg.

Roedd wedi ei gyflogi gan y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd, ar sail pasio deddf gyntaf yr laith Gymraeg yn 1967. Does dim angen esbonio wrth neb sy 'ma heddi' pam gafodd Deddf laith ei chreu – roedd Saunders Lewis wedi traddodi ei ddarlith radio 'Tynged yr laith' ym 1962 (a chyda llaw, oes rhywun yn gwybod pryd draddodwyd y ddarlith radio gyntaf yn Gymraeg? Rwy wedi methu â dod o hyd i unrhyw gyfeiriad at y rhai blaenorol. Beth bynnag, erbyn i Ddeddf laith 1967 'sefydlogi', gwelwyd bod tunelli o ddefnydd roedd yn rhaid ei gael yn Gymraeg.

Doedd y Ddeddf laith honno ddim yn berffaith o bell ffordd, ond roedd yr Adroddiad a oedd yn sail i'w llunio yn dweud rhywbeth tebyg i hyn, sef bod hawl gan unrhyw un yng Nghymru i fynnu triniaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Oes unrhyw un 'ma wedi gweld copi o'r Ddeddf laith gynta'? Wel, dim ond rhyw ddwy ddalen oedd hi!

Y defnydd cynta' roedd yn rhaid ei baratoi yn Gymraeg oedd y papurau'n gysylltiedig â Chynrychiolaeth y Bobol, ar gyfer etholiadau lleol a chyffredinol.

Wedyn, mae'n siŵr ar sail y ffaith fod cynifer o bobol yn torri'r gyfraith yn fwriadol er mwyn cael y maen i'r wal, roedd angen pethau fel gwysion a ffurflenni'r llysoedd. Rwy'n cofio synnu ar y pryd fod cynifer o droseddau yn bosib yn y wlad!

Felly erbyn hyn, tua 1968, roedd Moc Rogers druan yn bodd i mewn gwaith, ac felly ymunais i ag yn y mis Medi, mewn stafell fach oer iawn ar lawr ucha' un o'r tai uchel 'na yn Heol y Parc yng Nghaerdydd. Un o'r manteision penna o fod yn gweithio yn yr adeilad hwnnw oedd ein bod yn cael llonydd gan bennaethiaid y 'trydydd llawr' ym mhrif adeilad y Swyddfa Gymreig ym Mharc Cathays.

Doedd 'na ddim cynsail i'r rhan fwyaf o'r pethau roedden ni'n ceisio'u trosi i'r Gymraeg, a chofiwch doedd 'na fawr o ffynonellau i droi atyn nhw chwaith. Y Geiriadur Mawr, wedi'i baratoi gan Meurig Evans a W O Thomas oedd yr unig eiriadur swmpus i droi ato bryd hynny a daeth y Geiriadur Newydd yn ddiweddarach.

Ond roedd yna baneli, o arbenigwyr fel rheol, yn dod ynghyd, yn bennaf dan Brifysgol Cymru a'r Bwrdd Gwybodau Celtaidd, i gyhoeddi rhestrau o dermau ar amrywiol bynciau, a chysoni'r rhai oedd ar gael.

Mater o ddysgu wrth fynd ymlaen oedd hi, felly, a mynd ar ofyn pobol roedden ni'n gwybod eu bod yn gweithio mewn maes penodol. Yn fwy na dim, cael esboniad o ystyr geiriau Saesneg oedd yr angen pennaf. Wrth baratoi'r nodiadau i'r ffurflen Dreth Incwm e.e. yn fuan iawn ar ôl dechrau gweithio fel cyfieithydd, rwy'n cofio dod ar draws y term '*enfeofment*'. Wel, doeddwn i ddim hyd yn oed wedi clywed y gair yn fy myw. Dwylo i fyny sawl un ohonoch chi all egluro'r term nawr!

Felly, dyma gael fy hala ryw awr ginio draw i brif swyddfa pennaeth un o'r banciau mawr rhyngwladol. Roedd hwnnw'n Gymro glew ac yn awyddus iawn i helpu. Gyda llaw, roedd e'n un o brif swyddogion y Steddfod Genedlaethol hefyd am flynyddoedd lawer.

Cofiwch chi, roedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol erbyn hyn Banel Ymgynghorol i'w gynghori ar faterion darparu fersiynau Cymraeg o wahanol bethau, a byddai'r Panel hwnnw'n gwrthod neu'n gloywi neu'n derbyn ein cynigion 'amaturaidd' ni. Rwy'n siŵr mai yng nghyfarfodydd y Panel hwnnw y ces i'r gwersi gorau erioed ar gywirdeb yr iaith Gymraeg.

Os cofia i'n iawn, ymhlith aelodau'r Panel hwnnw roedd pobol fel Glanmor Williams, Y Cadeirydd, T J Morgan, R T D Williams, Mati Rees, E D Jones, Dafydd Jenkins ac yn y blaen.

Byddai Glanmor Williams a T J Morgan yn amal yn cael hwyl mawr yn pryfocio Mati Rees. Roedd hi'n enwog am ei hetiau, os cofiwch chi, a byddai'r ddau academydd weithiau'n defnyddio un o hetiau Mati fel pêl rygbi a'i thowlu fel pêl i'r '*line-out*' o un pen i'r coridor i'r llall!

Ond roedd y gwaith y byddai'r arbenigwyr hyn yn ei baratoi yn rhyfeddol, a dynna yw sail nifer o ffynonellau sydd ar gael i ni heddiw. Rwy'n cofio un enghraifft yn arbennig, sef y gair '*telecommunications*'. Prin fod y cysyniad na'r gair wedi ymddangos yn yr iaith Saesneg bryd hynny, felly, dyma gynnig 'telegyfathrebu'. Ond na. Esboniodd T J Morgan nad oedd geiriau o fwy na rhyw bedair sill yn dueddol o 'fyw' a dyna gynnig 'telathrebu'.

On'd yw hi'n drueni bod cynifer o ddarlledwyr ac ysgrifenyddwyr yn Gymraeg erbyn hyn yn mynnu dweud 'telegyfathrebu' o hyd ac o hyd. Mae cymaint o bobl wrth wynebu term neu ymadrodd sy'n newydd iddyn nhw yn gofyn "beth yw'r gair Cymraeg am hyn a hyn?". A gweddill y wlad wedyn yn awgrymu pob math o gynigion. Ond roedd pobol lawer mwy deallus a phrofiadol a chymwys eisoes wedi cynnig yr atebion. Ond wrth gwrs, os nad yw'r term hwnnw i'w weld ar ryw restr ar y ffôn glyfar neu ym mherfedd rhyw gyfrifiadur, dydy pobol ddim yn gwybod ble i edrych. Yn amal iawn, does dim angen 'dyfalu' na 'chreu' o'r newydd.

Ond rwy'n dechre' pregethu 'to. Dratio fi!

Roedd nifer o restrau eraill yn cael eu paratoi hefyd gan mwyaf gan gyrff fel y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, termau Amaethyddiaeth a Milfeddygaeth (1994) a Termau Llywodraeth Leol (1971) neu gyrff annibynnol fel Cyngor Sir Dyfed a gwasanaeth Archifau Gwynedd. Ac ers sawl blwyddyn nawr mae rhestrau cyson a diweddariadau'n cael eu cyhoeddi gan yr Uned Safoni Termau ym Mhrifysgol Bangor. Syniad gwyb: cael un corff i fod yn gyfrifol am grynhoi a chysoni termau mewn maes penodol drwy ymgynghori â siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol feysydd ac yna'n dod i benderfyniad terfynol. Mae hyn yn arbennig o wir, wrth reswm, o gofio am yr holl amrywiadau tafodieithol posib yng Nghymru.

Mae'n bryd i fi gael hoe fach nawr a gofyn i chi ddweud beth yw'r gair cyfatebol i chi i'r gair Saesneg '*hedge*'. Ai clawdd, gwrych, sietin, perth? Rhywbeth arall? A meddyliwch am y gair 'teg' (*fair*) wrth sôn am y tywydd. Byddai Moc Rogers yn dweud bod y tywydd yn deg a finne'n dweud ei bod hi'n grasboeth!

Os yw termau ac ymadroddion wedi achosi anghydweld, mae enwau lleoedd yn achosi rhyfel bron ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Ryn ni i gyd 'ma yn hen gyfarwydd â'r rheswm dros y pwysu am arwyddion ffyrdd dwyieithog, a rhoi trefan ar eu sillafiad nhw, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ers rhai blynyddoedd mae wedi bod yn jôc gofyn sawl 'c' sy yng Nghricieth, a gofynnwch chi i bobol sawl 't' sy yn Betws, ac fe ddwedith llawer iawn o bobol wrthoch chi mai Cricieth (dwy 'c') a Betws (dwy 't') sy'n gywir, waeth dyna sy ar yr arwyddion ffyrdd. Ond y gwir amdani yw bod rheswm penodol dros y sillafiadau 'Seisnig' hyn.

Rywbryd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, os nad ynghynt, penderfynodd y llywodraeth yn Llundain fod angen llunio mapiau gweddol fanwl o rannau o Brydain er mwyn galluogi symud milwyr ac offer rhyfel o gwmpas y wlad os byddai bygythiad ymosodiad o'r Cyfandir.

Roedd swyddogion yr Arolwg Ordnans yn cael eu hanfon o gwmpas y wlad i holi'r bobol leol beth oedd enw eu pentref neu eu tref neu eu hardal. A'r unig bobol fyddai'n gallu helpu'r swyddogion yn amal iawn fyddai'r ficer leol neu'r ysgolfeistir lleol, a Chymraeg digon tila oedd gan y rheiny, os o gwbl. Felly byddai'r sain 'f' yn cael ei gyfleu fel y Saesneg 'v'. Roedd angen dwy 'm' yn Crymch, a dwy 's' yn Llandysilio, a Crynant fyddai Creunant. (Enghrefftiau).

Yr argymhelliad yn Adroddiad Roderic Bowen ym 1972 oedd gadael i'r awdurdodau lleol benderfynu'n derfynol beth fyddai'r enw a'r sillafiad a lleoliad enwau dwyieithog ar arwyddion ffyrdd – Gymraeg yn gyntaf, Saesneg o dano, neu i'r gwrthwyneb.

Roedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, Nicholas Edwards, banel o arbenigwyr i'w gynghori eto ar gywirdeb a sillafiad enwau llefydd. Cododd ffwdan arall wrth argymell Y Bala, Y Drenewydd, ac ati. Ond na, doedd hynny ddim yn bosib yn ôl rheolau llunio arwyddion ffyrdd dwyieithog * (teilsen), dyma pam y gwelwch chi 'Drenewydd', 'Bala', 'Felindre' a 'Wyddgrug' (rwy'n credu).

Helynt arall a gododd oherwydd caniatáu i'r awdurdodau lleol ddewis y sillafiad terfynol oedd bod nifer o enwau gyda 'fersiwn' Saesneg sy'n ddim ond ymgais i gyfleu yn Saesneg yr enw Cymraeg gwreiddiol, e.e. Wenvoe am Gwenfô. Ac i'r gwrthwyneb hefyd. Ond roedd rhai pobol leol yn mynnu cael y ddwy fersiwn, hyd yn oed os dim ond un llythyren o wahaniaeth oedd rhwng y ddwy iaith. Dyna pam welwch chi Llangynnwr wrth ymyl Caerfyrddin, a '*Langynnyr*' ymhen rhyw hanner milltir. Ac roedd pobol Llanybydder yn mynnu cael Llanybydder (dwy 'd') a Llanybyther (gyda 'th'). Dyna ichi gydraddoldeb go iawn! (Pleidlais yn Llan-non), Aber-, Llanelly, Dolgelly.

Er mwyn penderfynu pa iaith ddylai ddod yn gynta' ar arwyddion ffyrdd, aeth nifer o swyddogion (rhai pwysig iawn, gallwch fentro) i bob math o wledydd i weld beth oedd y drefen yno gan fod yr Adran Drafnidiaeth yn mynnu y byddai arwyddion dwyieithog yn beryglus, yn ddryslyd ac yn ddrud. Ac roedd nifer o bobol yng Nghymru yn cyd-fynd â'r farn honno. Felly aethpwyd i Dde Affrica, Y Swistir, Sweden ac Iwerddon, er enghraifft, i wneud yn siŵr nad oedd gyrrwyr yn y gwledydd hynny yn bwrw yn erbyn ei gilydd mewn syndod wrth weld y fath newydd-bethau!

I ganol Llundain y ces i fy anfon ynghyd â chydweithiwr o'r Swyddfa Gymreig a oedd yn Gymro glân gloyw ac yn ddeallus. Fe gawson ni ein hala i'r Ganolfan Ymchwil Trafnidiaeth lle'r oedd arbrawf wedi ei drefnu ar ein cyfer. Y bwriad oedd profi faint o amser fydden ni'n ei gymryd i 'adnabod' yr enw lle penodol ar y gylchfan roedden nhw wedi ei chreu.

Rhywbeth tebyg i hyn*

Wel, doedd hyn ddim yn gwneud 'sens' i'r naill na'r llall ohonom ni, a dyma ni'n protestio na allai'r amseru fod yn ddilys oherwydd ein bod yn gwybod bod y fath arwydd yn amhosib. Ond na, roedd rhaid inni gofio mai dychmygol oedd yr arwydd, a doedd y swyddogion ddim yn deall bod pobol yng Nghymru, am fod y wlad yn fach, yn gwybod fwy neu lai ble'r oedd trefi a phentrefi ac ati.

Os ca'i achwyn fy nghŵyn, mae'r arfer presennol o droi at ryw fath o dechnoleg glyfar yn achosi mwy fyth o anawsterau nawr 'to. Wyddoch chi'n iawn am arwyddion dros dro, y rhai coch fel rheol, lle bydd gwaith ffordd ar droed. Y contractiwr sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r rheiny, a Google Translate yw beibl y bobol hynny. Pa eisie talu am gyfieithiad sy neu holi rhyw Gymro Cymraeg am gywirdeb rhyw sillafiad, a'r cyfan ar gael am ddim drwy wasgu botwm ar gyfrifiadur?

Ond falle mai'r prawf pennaf ar ddyfeisgarwch geiriol pobol fel Moc oedd YR arwisgiad ym 1969. Nid yn unig roedd cofnodion yr holl bwyllgorau a'r holl gyfarfodydd i gael eu cyfieithu (ie, pob dim – dyna i chi ddwyieithrwydd, dim where!) ond roedd 'na hefyd 'Raglen y Dydd' ar gyfer y diwrnod mawr, diwrnod 'y Coroni' a'r trefniadau ar y 'Maes'.

Fel y gallwch chi ddychmygu, roedd teitlau rhai o'r swyddogion hyd yn oedd yn ddiystyr i ni, heb sôn am geisio'u cyfleu nhw mewn Cymraeg cyfatebol, e.e. *Gentleman Usher*, *Gentleman at Arms*, *Wales Herald Extraordinary*, *Garter King of Arms*, ac yn y blaen ac yn y blaen. A dyna i chi'r *Field Officer in Brigade Waiting*, *Clarenceux King of Arms*, a *The Lord Great Chamberlain* (a phwy oedd hwnnw, meddech chi?) Wel, *The Marquiss of Cholmondeley*, wrth gwrs. A dyna pryd y sylweddolais i nad Chol-mond-el-ay yw'r ynganiad iawn ond Chumley. A phwy sy'n cwyno bod enwau Cymraeg yn anodd eu hynganu?

Wel, beth bynnag am yr holl helyntion, fe gawsom ni yffach o hwyl rhwng popeth, oni to fe, Berwyn.